

Tîm y Swyddogion Sabothol 2022/23
Undeb Myfyrwyr Caerdydd

13 Chwefror 2023

Annwyl Dîm Sabothol,

Diolch am eich llythyr agored am ddefnydd y Brifysgol o ddiyniadau streic.

Rhannaf eich pryderon ehangach a phryderon ein myfyrwyr am effaith gweithredu diwydiannol ar eu hastudiaethau. Nid yw hon yn sefyllfa yr wyf am ei gweld, yn enwedig i'r myfyrwyr hynny yr effeithiwyd arnynt gan rowndiau blaenorol o weithredu diwydiannol a'r pandemig.

Gallaf sicrhau eich tîm y byddwn yn parhau i weithio gyda'n Hysgolion academiaidd ac y byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i liniaru'r effaith ar addysgu a dysgu.

Fel y gwyddoch, anghydfodau cenedlaethol yw'r rhain sy'n ymwneud â'r rhan fwyaf o brifysgolion y DU. Ni all Prifysgol Caerdydd ddatrys y materion hyn yn annibynnol. Rydym yn cymryd rhan mewn prosesu fargeinio dros gyflog ar y cyd ac yn parhau i fod wedi ymrwymo iddo.

Mae cynrychiolwyr o'r ddwy ochr - UUK ac UCU - yn parhau i gyfarfod. Cyn hyn, [cytunodd y Brifysgol ar ddatganiad ar y cyd](#) gydag UCU Caerdydd. Yn rhan o'r datganiad ar y cyd hwn, cytunom i ddefnyddio'r ffaith ein bod yn aelod o UUK i weithio'n frwd i gefnogi'r pwyntiau a nodir yn ein datganiad.

Byddaf yn parhau i wneud hynny, ac yn gobeithio y gall y ddwy ochr ddod at ei gilydd cyn gynted â phosibl i ddod o hyd i ateb cynaliadwy fel y gellir osgoi aflonyddwch pellach.

O ran didyniadau streic, mae staff yn gwbl ymwybodol os ydynt yn cymryd rhan yn y diwrnodau streic na fyddant yn cael eu talu am y diwrnodau hynny. Yn yr un modd â chyfnodau blaenorol o weithredu diwydiannol bydd y Brifysgol yn defnyddio'r cyflog sy'n cael ei ddal yn ôl oddi wrth staff sy'n cymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol i gefnogi myfyrwyr ac i fynd i'r afael â'r aflonyddwch a achosir gan weithredu diwydiannol.

O ran eich pwynt penodol ynglŷn â defnyddio'r arian hwn i wneud taliadau ar unwaith i fyfyrwyr, er fy mod yn gwerthfawrogi'r pwynt, ymrwymiad y Brifysgol yw cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod myfyrwyr yn cael y cyfleoedd dysgu y gallant yn rhesymol eu disgwyl.



Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, bydd yn cymryd amser i ddeall graddau ac effaith lawn yr aflonyddwch a achosir gan y gweithredu diwydiannol, ac i nodi camau priodol y gellir eu cymryd yn dilyn cyfnod y streiciau.

Mae ein sefyllfa o ran taliadau ariannol ar gyfer oriau cyswllt a gollwyd bob amser wedi bod yn glir. Yn gyntaf mae angen i ni nodi lle mae aflonyddwch wedi digwydd a, lle bo'n bosibl, bydd Ysgolion yn rhoi camau gweithredu ar waith i gefnogi dysgu myfyrwyr, a mynd i'r afael ag unrhyw amhariad a allai fod wedi codi. Bydd angen amser ar ysgolion i wneud hyn a bydd y camau a gymerant yn cael eu cofnodi a bydd myfyrwyr yn cael gwybod.

Rhoddir ystyriaeth wedyn i weld a oes angen unrhyw rwymedïau pellach, a all gynnwys setliad ariannol.

Os yw myfyrwyr yn dal yn anfodlon â'r cyfleoedd dysgu amgen a ddarperir i ddisodli cynnwys a gollwyd neu â'r atebion eraill a ddefnyddiwyd, dylent godi eu pryderon trwy eu Hysgol i ddechrau.

Os bydd myfyrwyr yn parhau i fod yn anfodlon ar ôl i bob cam gael ei gymryd i ddarparu cyfleoedd dysgu amgen, gallant wedyn gyflwyno cwyn gan ddefnyddio Trefn Gwyno Myfyrwyr y Brifysgol, sy'n caniatáu ar gyfer sawl rhwymedi gan gynnwys setliad ariannol.

Credwn mai'r dull hwn yw'r ffordd gliriaf a thecaf o reoli'r amhariad drwy roi'r cyfle i Ysgolion ddarparu cyfleoedd dysgu amgen yn gyntaf ac ystyried a oes angen atebion pellach. Deallaf y bydd cydweithwyr yn y Gofrestrfa yn cyfarfod â'r OIA yn fuan i sicrhau bod ein hymagwedd yn rhesymol ac yn gymaradwy â gweddill y sector.

Yn olaf, hoffwn achub ar y cyfle hwn i atgoffa eich tîm bod y Brifysgol yn darparu gwasanaethau gwybodaeth a chymorth i helpu myfyrwyr i reoli eu hiechyd emosiynol, meddyliol a chorfforol yn ystod y cyfnod ansicr hwn. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar [Fewnrwyd y Myfyrwyr](#). Fel bob amser, ein gwasanaeth [Cyswllt Myfyrwyr](#) yw eich pwynt cyswllt cyntaf os oes angen unrhyw gyngor a chymorth ar fyfyrwyr.

Er mwyn bod yn agored ac yn dryloyw, byddaf yn cyhoeddi'r ymateb hwn ar wefan y Brifysgol.

Yn gywir,



Yr Athro Colin Riordan
Is-Ganghellor